# Cenn@d

22 Gorffennaf 2026

Rhifyn 282

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru


# Y Gymanfa Gyffredinol

## Cymanfa flynyddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gynhaliwyd ym Mhorthmadog



*Y cynrychiolwyr yn sefyll o flaen Capel y Porth, Porthmadog*

"Llawenhewch bob amser. Gweddïwch yn ddi-baid. Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi."

Dyma thema'r Gymanfa eleni, ac ymhelaethodd Hedd Morgan, Capel y Bont, Pontypridd, arni wrth inni ymgynnull ar gyfer ail ddiwrnod y Gymanfa, ar 7 Gorffennaf, gan ddweud, 'Er yr heriau, gallwn lawenhau yn yr Arglwydd a chodi ein golygon uwchlaw ein hamgylchiadau.'

Y noson cynt, nos Lun, 6 Gorffennaf, cafodd y Gymanfa wledd o lawenydd ar ddawns a chân wrth i griw Ny Ako o Fadagascar gynnal cyngerdd a chyflwyniad yn y Ganolfan, Porthmadog, i gyd-fynd â'r Gymanfa.

### Ailstrwythuro

Fe ddechreuodd Cymanfa Gyffredinol EBC yng Nghapel y Porth, Porthmadog, bnawn Llun, 6 Gorffenaf, gyda gwasanaeth dan ofal y Llywydd, Glynis Owen. Yna, aed ymlaen yn syth i gyflwyno a thrafod materion ynghylch ailstrwythuro'r Cyfundeb, yn dilyn yr ymgynghori eang a gafwyd eisoes ar y cynigion. 'Nid strwythurau fydd yn adfywio'r eglwys, ond pobl fel chi a fi', a 'Cyfle i ailddarganfod ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau fel eglwys,' meddai'r Llywydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol wrth gyflwyno.

Bu Steve Wynn, Moreton, o'r Adran Adnoddau ac Eiddo, yn amlinellu goblygiadau'r ailstrwythuro o ran adnoddau mewn staff. Eglurodd fod yr argymhellion yn anelu at fod yn gost niwtral.

Wayne Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweinidogaethau, fu'n ein hatgoffa am gynlluniau sylfaenwyr y Corff wrth sôn am berthynas teulu'r Corff heddiw â'r gweithwyr a'r prosiectau er mwyn cynnig cefnogaeth ac atebolrwydd iddyn nhw o fewn y strwythur newydd.

Dr Elwyn Richards, Bangor, a grynhodd yr argymhellion drwy weld eu bod 'yn cynnig newid trwy ryddhau egni ac adnoddau fydd yn newid ein sefyllfa er gwell'.

Cynigiwyd a derbyniwyd yr argymhellion o dan naw pennawd yn cwmpasu holl waith y Corff, gan roi caniatâd i dreialu trefniadau newydd yn ystod 2027.

### Y Darlithoedd

Cyflwynwyd y Ddarlith Hanes eleni gan Dr Gareth Evans-Jones o Brifysgol Bangor ar y testun: 'O Gapel Celyn i Balesteina'. Darlith oedd hi ar y gydwybod Gristnogol Anghydffurfiol Gymreig. Dechreuodd drwy ddyfynnu'r ddihareb: 'Uchaf Lys, Llys Cydwybod' a darfod gyda'r her: 'Beth am guro wrth ddrws cydwybod a pheidio ag ofni heriau moesol sy'n ein wynebu bob un?'

'Beth sydd yn dod i ben yng Nghymru heddiw?' oedd cwestiwn agoriadol Dr Andras Iago yn y Ddarlith Davies eleni, yn dwyn y teitl: 'Methodistiaeth Galfinaidd a'r Gymru Newydd'.


Dathlu 200 mlwyddiant yn Llanllyfni
**Tudalen 4**

Cofio'r Parchedig John Owen
**Tudalen 5**

Keti Koti
**Tudalen 7**



Ewch i sianel YouTube EBC i wylio a gwrando ar y ddwy ddarlith. Mae'r ddau ddarlithydd yn archwilio pwy ydym ni bellach a beth fu'r dylanwadau arnom ninnau fel Cristnogion unigryw o fewn tir Cymru ond yn perthyn hefyd yn agos i gorff yr Arglwydd Iesu ledled y byd.

O Gapel Celyn i Balesteina: y gydwybod Gymreig? Gareth Evans Jones https://youtu.be/gL60Gh7wJG4?si=pdITzCMlFOaU8mPw

Methodistiaeth Galfinaidd a'r Gymru Newydd, Andras Iago: https://youtu.be/HuCsNVoUf6s?si=MXnbZ27UDcn29bzh

## Trafodaeth

Cafwyd trafodaeth frwd fore Mawrth am y 'cyfraniad Cyfundebol' wrth argymell defnyddio cyfalaf dros ben i helpu i dalu costau gweinidogaeth a chenhadaeth. Penderfynwyd gofyn am 65% yn unig gan yr aelodau a'r eglwysi o'r hyn oedd ei angen arnom fel Cyfundeb i dalu'r holl gostau ar gyfer 2027.

Bu trafod agored ac onest hefyd ar y mater o roi caniatâd i'r eglwysi sydd ag adeiladau rhestredig gan Cadw i geisio am grantiau o Gronfa Treftadaeth y Loteri ar eu cyfer. Bydd rhagor o drafod yn y Sasiynau cyn dod i benderfyniad ar y mater cynhennus yma.

## Gweinidogaeth a chenhadaeth

Mae 22% o oedolion a 32% o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi, a 135,000 o blant Cymru'n byw â chyflwr iechyd meddwl – dyma'r ffigurau a ddefnyddiodd Owen Griffiths o Henaduriaeth Saesneg y De-ddwyrain wrth sôn am y gwaith estyn allan yn rhai o'n henaduriaethau yn wyneb yr angen mawr yma yn ein gwlad. Cyfeiriodd hefyd at brosiectau fel 'Dillad Gobaith' a lloches i'r digartref yng Nghasnewydd sy'n defnyddio hen adeiladau eglwysig fel cartrefi i'r gwaith. Cyflwynodd yr amcan o sefydlu elusen newydd 'Cyswllt Gobaith Connect' i weithredu ar ran henaduriaethau cyfrwng Cymraeg a Saesneg i gynnig cefnogaeth a datblygu'r gwaith estyn allan yma ymhellach.



Nia Williams, arweinydd Tîm Plant ac Ieuenctid y Cyfundeb, fu'n holi Lois Franks o Donypandy, sydd wedi ei phenodi i ddatblygu Canolfan Coleg y Bala ar gyfer cyfnod newydd ac a fydd yn symud yno gyda'i theulu. Rhoddodd Lois ddiolch am gyfraniad y Ganolfan a'r gwaith yno hyd yma i waith y Deyrnas yng Nghymru, gan sôn am gynlluniau i ehangu'r gwaith.

Cyfeiriodd Angharad Clwyd at y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig yn y Ganolfan i'n plant a'n hieuenctid, gwaith sydd wedi datblygu a pharhau ers y dyddiau cynnar gyda Dafydd Owen, Caplan Ieuenctid cyntaf yr enwad. Cyflwynwyd y dyfodol a'r gwaith i gyd i'r Arglwydd mewn gweddi gan Nia.

Canu 'pen-blwydd hapus' a wnaed wedyn i eglwys Noddfa, Caernarfon, wrth wahodd Mererid Mair i rannu am y dathlu sydd yno eleni. Dechreuodd y Chwaer Emily Roberts y gwaith 70 mlynedd yn ôl, a sefydlwyd eglwys yno 60 mlynedd yn ôl. Mae Mererid ei hun wedi bod yno ers 20 mlynedd, a diolchodd i'r Arglwydd am yr holl waith sydd wedi digwydd yno dros y blynyddoedd.

Gwelwyd arddangosfa hardd o adnoddau Adran y Chwiorydd yn y Gymanfa, a chyflwynwyd y gwaith gan Carys Davies ac Eirian Roberts. Diolchwyd a dymunwyd fendith i Carys wrth iddi ymddeol o dîm gwaith y Chwiorydd ddiwedd Awst.

Yn yr un modd, cydnabuwyd gwasanaeth Andy Britton am dros 30 mlynedd fel Pennaeth Ariannol y Cyfundeb. Bydd yntau'n camu i lawr o'r rôl honno yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.



## Cydnabod haelioni

Wrth rannu am India a Manipur, diolchodd Nan Powell-Davies, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, am y gwaith gwehyddu

cywrain a luniwyd eleni yn arbennig ar gyfer y Gymanfa gan yr artist Cefyn Burgess. Roedd y gwaith i'w weld yn y llieiniau ar y byrddau ac yng ngwisgoedd y Llywydd a'r Ysgrifennydd Cyffredinol. Mae'r gwaith yn adlewyrchu'r berthynas rhwng EBC a Synodau'r Eglwys Bresbyteraidd yng Ngogledd-ddwyrain India, gyda phatrymau o Fryniau Casia, Mizoram a Chymru'n amgylchu arwyddlun y Cyfundeb.

Diolchwyd i bawb am eu hymdrechion yn sicrhau cyfraniadau o dros £48,000 tuag at gefnogi gwaith i ddygymod efo effeithiau'r gwrthdaro ym Manipur ac i gefnogi gwaith adfer a chymod mawr y Synodau yno. Soniodd Nan am ei hymweliad diweddar â Gogledd-ddwyrain India ac am y fraint o gael sefyll efo'r eglwys yno.

## Cyfiawnder a heddwch

Rhannodd Bryn Williams am yr apêl gweddi a sefyllfa'r eglwys ym Manipur, a'r erledigaeth a'r tensiwn sy'n parhau yno wrth i dri o weinidogion gael eu llofruddio ym mis Mai a phentrefi wedi eu llosgi ers hynny hefyd. Condemniodd bob un sy'n creu rhyfel a gwrthdaro yn y byd ac yn ei hyrwyddo – ym Manipur a'r India, ym Mhalesteina ac Israel, yn Iran a'r Unol Daleithiau.

Rhannodd Anna Jane Evans am ei hymweliad ag Eglwys Bresbyteraidd Taiwan hefyd a'i hamser yn eu Cymanfa Gyffredinol a'r Fforwm Ecwmenaidd yno. Cadarnhawyd ein safiad gyda'r Eglwys honno mewn solidariaeth yn erbyn pob grym sy'n ceisio difa eu hunaniaeth.

## Cymun a choffâd

John Roberts, Aberystwyth, a'n harweiniodd at Fwrdd y Cymun yn y Gwasanaeth Cymun a Choffâd eleni. Cawsom ein herio ganddo i dorri bara yng nghanol ein byw bob dydd.

Yn y gwasanaeth hwnnw, coffawyd y gweinidogion canlynol a fu farw yn ystod y flwyddyn:

Parchg Elwyn Pryse
Parchg Arthur Meirion Roberts
Parchg Dafydd H Owen, BSc, BD
Parchg John Owen, BA, BD
Parchg Philip de la Haye
Parchg Gareth Edwards, BA, BD
Parchg Marcus Robinson, BA, RN





Darllenwyd teyrngedau i'r pedwar ohonynt a fu'n llywyddion y Gymanfa Gyffredinol: Gareth Edwards, Marcus Robinson, Dafydd Owen a John Owen. Diolchwyd i Dduw amdanyn nhw i gyd mewn gweddi gan Ian Hayward, y Fenni, gan ofyn cysur a chymorth yr Arglwydd i'w teuluoedd.

Roedd lle mawr gennym ni i gyd i ddiolch i'r unigolion gwirfoddol a chyflogedig sy'n sicrhau bod y Gymanfa'n rhedeg yn esmwyth; diolch i Dduw am y cyfieithwyr, y cofnodwyr, technegwyr, gweinyddwyr a'r cyfeilydd a.y.y.b. Diolch arbennig i Gapel y Porth a'r ofalaeth a'u gweinidog, Chris Prew, am y croeso mawr a'r gweini hyfryd arnom yn ystod y deuddydd ym Mhorthmadog.




**EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU**

**Henaduriaeth Myrddin, Sir Gaerfyrddin**

## Gweinidog

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn chwilio am Weinidog i arwain Gofalaeth sefydledig yn eu hymdrechion i dyfu'n ysbrydol a lledaenu'r Newyddion Da i'r gymuned ehangach.

Lleoliad: Mae'r swydd hon yn gyfuniad o weithio o gartref a lleoliad eglwysig yn Nantgaredig, Cefnberach, Llanfynydd, Cross Inn Dryslwyn, Llangennech, Llanelli, Cydweli a Mynydd y Garreg.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dau eirda boddhaol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
e-bost: swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn: 02920 627465

Dyddiad cau: 4 Awst 2026 am 4yp

# Dathlu 200 mlynedd o Ebeneser, Llanllyfni

## gan Rhys Llwyd



Daeth plant Ysgol Llanllyfni a rhai o drigolion y cylch ynghyd yn ddiweddar i nodi carreg filltir arbennig wrth ddathlu 200 mlynedd ers sefydlu Capel Ebeneser, Felin Gerrig. Roedd y dathliad yn cynnwys cyfraniadau gan blant Clwb Splash, clwb Cristnogol sy'n cyfarfod ar ôl ysgol yn neuadd Ysgol Llanllyfni bob nos Lun, ynghyd â myfyrdodau gan y Parch. Rhys Llwyd a Hannah Smethurst ar ystyr yr enw 'Ebeneser' – 'carreg i gofio' – sy'n seiliedig ar 1 Samuel 7:12, 'Mae'r ARGLWYDD wedi'n helpu ni hyd yma.'

Gan ddefnyddio carreg fel symbol, cafwyd cyfle i adrodd stori Samuel a chysylltu'r neges â hanes Dyffryn Nantlle, lle bu cenedlaethau'n gweithio yn y chwareli ac yn trin y garreg fel rhan o'u bywyd bob dydd. Pwysleisiwyd bod y garreg yn y Beibl yn fwy na gwrthrych; mae'n arwydd o ffyddlondeb Duw a'i gymorth dros y cenedlaethau.

Yn ystod y gwasanaeth arweiniodd Trey McCain a'r plant y gynulleidfa mewn caneuon, a daeth y dathliad i ben drwy ganu emyn gan y gweinidog enwog Robat Jones, Llanllyfni, gan gofio'i gyfraniad i fywyd y capel a bywyd crefyddol a diwylliannol Cymru yn gyffredinol.

Wrth gloi, atgoffwyd y gynulleidfa nad yr adeilad ei hun yw gwir ystyr Ebeneser, ond y ffydd Gristnogol sydd wedi cynnal y capel a'r aelodau ers dwy ganrif, a'r gobaith sydd, yn ôl aelodau'r eglwys, i'w gael yn Iesu Grist hyd heddiw.



*Rhai o blant yr ysgol yn arwain y canu*

Rhyfedd meddwl bod capeli eraill Llanllyfni wedi hen gau, y chwareli wedi syrthio'n dawel a'r enwog Quarry Mans Arms wedi ei dymchwel, ond y 'capel bach' yn Felin Gerrig yn parhau i addoli.



*Hannah a Trey yn arwain y canu*



*Trey a Rhys yn sgwrsio gyda'r plant*

## Taro'r Post

Annwyl Olygydd

**Cofio Tom Williams**

Gweld ei lun yn *Cenn@d* a'm hatgoffodd o flynyddoedd cynta'r saithdegau pan aeth criw bychan ohonom ym Mhenllyn ati i sefydlu siop Awen Meirion yn y Bala – siop, gyda llaw, sy'n bodoli ac yn ffynnu o hyd.

Roedd Tom Williams yn rheolwr Banc y Midland yn y dre ar y pryd, a chawsom gymorth amhrisiadwy ganddo gyda materion ariannol, gan gynnwys trefnu benthyciad i ni. Yn wir, mae'n deg dweud na fyddai'r siop yn bod heb ei gymorth o.

Onid ein hangen ym mhob maes yng Nghymru yw am bobl dda a Christnogion gloyw? Coffa da amdano.

*Elfyn Pritchard, Sarnau*

# Cofio'r Parchedig John Owen, Rhuthun (1941–2026)

## gan Pryderi Llwyd Jones

Emlyn Davies sy'n sôn am John Owen yn dod yn weinidog ifanc i'w eglwys yn Llanberis. Roedd Emlyn yn y coleg ym Mangor pan oedd John yn fyfyriwr diwinyddol yno.

'Roedd yn destun llawenydd mawr i mi,' meddai, 'gan na fyddai neb gwell i ddilyn Meirion (Lloyd Davies). Roedd John hefyd yn benderfynol o roi lle amlwg i'r bobl ifanc yn ei weinidogaeth. Fe'm trawodd fel tynnwr coes a storïwr annwyl a ffraeth, heb flewyn o falais yn perthyn iddo, a hynny oedd yn ei wneud mor boblogaidd, ac roedd ei frwdfrydedd afieithus a'i bersonoliaeth agored, lawn asbri, yn denu ar bob achlysur. Ond fe wydden ni hefyd fod yna ddyfnder a difrifoldeb diffuant yn perthyn i'r mab ffarm ifanc hwn oedd yn medru saernïo pregeth mor gelfydd mewn Cymraeg coeth, rhywiog, a'i ddeunydd yn arddangos gwybodaeth ddiwinyddol drylwyr.'

Dyna John yn ei ofalaeth gyntaf. Ond dyna John hefyd am flynyddoedd lawer wedyn yn y Tabernacl, Rhuthun, a Dyffryn Clwyd. I'r gweinidog ifanc, fel i'r pregethwr flynyddoedd wedi ymddeol, roedd addoli yn golygu paratoi manwl. Ni fyddai'n mynd o flaen unrhyw gynulleidfa gan ddibynnu ar huotledd neu hen bregeth.

Oherwydd pwysau ei swydd, yr oedd yr 'amser i ymlacio' yn bwysig iddo – boed yn arddio, nofel ysgafn, gêm neu grwydro.

Yr oedd Gair Duw yn agor trysorau Teyrnas Dduw iddo i'w rhannu â'i bobl. Ac i John roedd y trysorau hynny'n golygu'r gorau o'n diwylliant Cristnogol. Fe fyddai Emrys ap Iwan wedi bod yn falch o'i olynydd yn y Tabernacl, Rhuthun. Nid yn unig yr oedd John yn ddarllenwr mawr, ond roedd yn ŵr o ddiwylliant eang a gredai fod Duw wedi bendithio ein hanes fel cenedl.

Yn y coleg, John oedd yn chwarae rhan Morgan Llwyd yn nrama John Gwilym Jones, *Hanes Rhyw Gymro*. Yn fuan wedyn, perfformiodd Cwmni Cymry Llundain y ddrama, gyda Ryan Davies yn actio Morgan Llwyd. Y farn gyffredinol oedd fod portread John yn gyfoethocach o lawer na phortread Ryan Davies. Roedd John wedi adnabod Morgan Llwyd ac wedi gwerthfawrogi ei waith, ei weledigaeth a'i ddyhead am heddwch mewn byd treisgar, a'i weddi am i olau Duw fod ynom fel Cymry. Does ryfedd fod cynifer wedi gwerthfawrogi cyfoeth iaith John Owen, Rhuthun. Ni ddylai'r alwad gyfoes barhaus am fod yn syml amddifadu ein ffydd o ran sylwedd a chyfoeth y Gair.

Fel Emrys ap Iwan, fe gyhoeddodd John nifer fawr o draethodau, erthyglau, darlithoedd a llyfrynnau, er enghraifft ei gyfrol am Ffransis o Assisi a'i Ddarlith Davies nodedig, *Gweld llais a chlywed llun*.

Roedd materion enwadol yn ymdrech ond yn ddyletswydd iddo. Yn ei ffyddlondeb fe dderbyniodd y gwahoddiad i fod yn Llywydd Sasiwn y Gogledd ac yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn 2007. Fe gyflawnodd ei swyddi gyda graen hwyliog – a pharatoi manwl – ac fe wnaeth nifer fawr o ffrindiau fel Llywydd poblogaidd. Un cynnes, agos atoch a siriol oedd John ac roedd ganddo nifer fawr o hen ffrindiau oedd yn ystyried y cyfeillgarwch yn fraint, fel ei ffrind y Parch. Dewi Myrddin Hughes a fu farw'n ddiweddar iawn. Braint i ninnau oedd y gwyliau haf blynyddol a'r galwadau ffôn wythnosol a dyfodd yn alwadau dyddiol.




Bu'n rhan o sefydlu dau bapur bro a chyfrannu iddynt, ac fe fyddai gwaith cymunedol felly wedi bod wrth fodd Emrys ap Iwan. Ac yna, wrth gwrs, y ddrama. I John, cyfrwng dadlennu a dathlu ein dynoliaeth yw'r ddrama. A dyna pam, am chwarter canrif gyda Chwmni Rhuthun, yr oedd yn dewis dramâu o sylwedd. Yr oedd hefyd yn ymwelydd cyson â theatrau ac yn gweld y ddrama, fel y mae eraill yn gweld cerddoriaeth, yn gyfrwng hanfodol grefyddol. Mae'r Beibl wedi cyfoethogi'r ddrama ac mae themâu mawr y Beibl yn themâu'r llwyfan hefyd.

Bu'n ddewr yn ei waeledd diweddar fel y bu ym mhob profedigaeth. Collodd ei annwyl Ann – cariad coleg – yn ifanc, a cholli Gwenda yn ifanc o glefyd motor niwron. Bu ei ofal drostynt yn fawr a thyner, gyda chefnogaeth yr hogiau, Dafydd a Huw, a thri llysfab ffyddlon: Dyfan, Trystan ac Ifor Rhys. Bu'n fugail tyner i'w braidd – ac i'w deulu.

Rhyfeddod wedi ymddeol oedd iddo feistroli'r gynghanedd, a chyhoeddwyd dwy gyfrol o'i englynion yn ddiweddar iawn. Arwel Emlyn oedd ei athro cerdd dafod a'i ffrind ffyddlon, a'r un fu'n gyfrifol am gyhoeddi ei waith. Yn nisgyblaeth a chynghanedd ei englynion mae John yn plethu pobl a dathliadau, pleserau a ffrindiau, cydymdeimlad a cholli, Môn a chynefin, teulu a chartref, Nadolig a Phasg, doniolwch a Duw – yn un salm o ddiolch. *Briwsion* oedd teitl y gyfrol gyntaf; nid briwsion oedd ei fywyd na'i waith, ond clod i'r un a'i carodd ac a'i galwodd i fod yn was iddo.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




**Codi'r Llen 32**

## Ymson Fasti

Newidiodd popeth yr eiliad y deallodd y brenin fy mod yn ei wrthod. Cyn hynny, ro'n innau'n frenhines, yn cael gwneud fel y mynnwn ac yn byw bywyd braf. Ond, y diwrnod hwnnw, teimlais bod yn rhaid imi ddweud y ddau air tyngedfennol: 'Na wnaf'.

Mae'n siŵr eich bod wedi clywed fy mod yn hardd – ond na dd'wedodd neb wrthych fy mod yn ddoeth ac yn ddeallus. Byddwch yn gwybod rhan o'r stori, ond does neb yn gofyn pam y gwnes i'r penderfyniad a fyddai'n newid fy mywyd.

Y noson honno roedd y brenin wedi meddwi – ar bŵer ac ar win. Galwodd amdanaf. Ni dd'wedodd beth ddylwn ei wisgo, ac eithrio fy nghoron. Cymerais felly ei fod yn dymuno f'arddangos i bawb, a bod hynny'n golygu dangos popeth! Oedd e wir yn dychmygu y byddwn i'n gwneud hynny? Sut ar y ddaear allwn i sicrhau unrhyw fath o loches imi fy hun mewn sefyllfa fel hon? Gallai unrhyw beth ddigwydd. Un symudiad ganddo fe a byddwn wedi fy meddiannu'n llwyr!

Allwn i ddim. Ddylwn i ddim. A wnes i ddim. D'wedais 'Na'. Na: i rym un dyn drosof. Na: i gydsynio i fod yn rhywbeth nad oeddwn eisiau bod. Na yw na. Atseiniodd fy 'na' drwy'r palas. Ymhen hir a hwyr roedd eco'r 'na' wedi ymledu drwy'r deyrnas i gyd. Clywais innau gynghorwyr y brenin yn sibrwd wrth ei gilydd. Nid fy nhrafod i yr oedden nhw mewn gwirionedd, ond trafod yr effaith ar eu gwragedd ac yn pryderu am eu buddiannau eu hunain. Roedden nhw am imi ddiflannu er mwyn i'r peth gael ei anghofio.

Ond allwn i ddim anghofio. Felly, dwi wedi aros am ganrifoedd, yn disgwyl clywed eraill yn codi eu lleisiau: yn siarad am eu profiadau, yn gweiddi dros eu hawliau, yn gwrthod. Arhosais yn hir … yn rhy hir o lawer. Gwyliais o bell ar rai yn derbyn, yn dioddef, yn esgus, ac yn ffugio er mwyn cadw'r heddwch. Heddwch i bwy, dwi ddim yn siŵr.

Yna, clywais rywbeth. Un ferch yn ymbil ar eraill i rannu dau air. Ie, dau air, yn union fel y gwnes i. A'r ddau air y tro hwn? 'Fi hefyd.' A daeth y lleisiau. Nid un llais, nid dau, nid deg, nid cant hyd yn oed, na miloedd, ond miliynau! Merched mewn stafelloedd ymarfer, merched mewn swyddfeydd, merched mewn cyfweliad. Merched, merched, a mwy o ferched. Rhai a gafodd eu galw'n 'anodd', rhai a gafodd eu gwawdio am ddweud y gwir, rhai a gollodd eu swyddi am sefyll ar egwyddor. Canrif hollol wahanol, ond yr un sgript.

'Ti wnaeth gamddeall.'
'Doedd o ddim yn bwysig, nac yn werth dim.'
'Paid â gwneud môr a mynydd o'r peth.'
'Ti sy'n gorymateb.'
'Paid cwyno, 'sdim pwynt.'
'Dy fai di …'

Dwi'n nabod y sgript, wedi clywed y llinellau droeon erbyn hyn. Dwi'n gwybod sut y mae grym yn hoff o berswadio rhywun mai cadw'n dawel sydd orau. Ond wrth glywed 'fi hefyd', clywaf furiau eraill yn dechrau dymchwel. Nid fi oedd yr olaf; daeth llawer ar fy ôl. A siŵr o fod, yn anffodus, daw nifer eto.

Gofynnodd rhywun imi unwaith oeddwn i'n difaru gwrthod? Gofynnaf finnau: fyddech chi'n gofyn i'r person cyntaf a oleuodd gannwyll a oedd y tywyllwch yn fwy cyfforddus? Ac wrth bob person sydd wedi teimlo erioed fod dweud a rhannu yn costio gormod, fe ddywedaf, 'Dwi'n gwybod'. Gwn sut y mae dweud y gwir yn colli ffrindiau, colli swyddi, colli cyfle a gyrfa. Ond mae cadw'n dawel weithiau'n costio mwy.

Felly, os gall un llais wneud gwahaniaeth yn erbyn brenin, yna fe all cannoedd o leisiau wneud cymaint mwy. A chofiwch hyn: bob tro y bydd un person yn dweud 'Na wnaf', fe godaf eto, o'r llwch a chodi fy llais.

**Holi**

- Beth mae crynoder stori Fasti ac absenoldeb ei llais yn ei awgrymu ynghylch pa leisiau sy'n cael lle yn yr Ysgrythur? Beth yw eich barn am hyn?
- Dyw'r testun Beiblaidd ddim yn esbonio rhesymeg Fasti. Oes cwestiynau'n codi felly ynghylch rhyddid i weithredu, cydsynio neu beidio, a dewrder i wrthsefyll?
- Cafodd Fasti ei thawelu mewn gwirionedd. Ydych chi'n ymwybodol o hyn yn digwydd yn rhywle heddiw?
- Oes gan Fasti wers inni am werth cadw urddas wrth weithredu ar egwyddor a chred?

**Gweddi**

Dysg ni, Dduw –
beth bynnag ein rhywedd –
pryd y dylem ddweud "Na",
pryd i aros yn dawel,
pryd i fod yn urddasol,
pryd i godi llais.
Rho inni ruddin cymeriad
i'n galluogi i wybod sut mae
ymddwyn mewn gwahanol
amgylchiadau.
Gwna ni'n gryf, yn wych, yn ddoeth,
ac yn dda. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 26 Gorffennaf 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 26 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Megan Williams, Porthaethwy

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 26 Gorffennaf am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Rhosier Morgan, Llandudoch

# Keti Koti



*Cynrychiolwyr o Gymru ger y cerflun caethwasiaeth cenedlaethol*
*Rhes flaen: Joanna Thomas-Wright, Nan Powell-Davies, Mair Tomos Ifans, Elinor Wyn Reynolds, Rhodri Darcy*
*Rhes ôl: Huw Powell-Davies, Geraint Rees, Sian Meinir, Thomas Williams, Wayne Adams*




*Yr Athro Kathleen Ferrier yn annerch*

Yn niwedd Mehefin, ychydig cyn ein Cymanfa Gyffredinol ein hunain, fe alwyd cynrychiolwyr o'r eglwysi Ewropeaidd sy'n perthyn i fudiad Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (CWM) i'w cynhadledd yn yr Iseldiroedd. Ymhlith yr eglwysi hynny sy'n perthyn yng Nghymru y mae eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac roedd hi'n braf iawn cael cwmni ein gilydd wrth feddwl am thema'r gynhadledd: 'Ailddychmygu Cenhadaeth'.

Mae'r Iseldiroedd yn wlad gyfoethog, â phopeth yn hwylus yno; mae'n wlad drefnus a thwt, â llawer iawn o ofal a pharch i'w gweld ar waith yno.

Buom yn Utrecht yn swyddfeydd Eglwys Brotestanaidd yr Iseldiroedd, neu'r PKN. Dyma'r enwad Protestannaidd mwyaf yn y wlad; fe'i ffurfiwyd yn 2004 wrth i Eglwys Ddiwygiedig yr Iseldiroedd ac enwad diwygiedig arall a'r Eglwys Efengylaidd Lutheraidd ddod ynghyd yn un enwad. Mae gan yr eglwys fil o weinidogion a dros 1.4 miliwn o aelodau ar draws bron i 1,500 o eglwysi. Felly, union gan gwaith mwy o aelodau nag EBC, ond dim ond tair gwaith yn fwy o eglwysi!

Adeilad anferth wedi ei addasu o hen ysbyty a'i rannu â myrdd o fudiadau Cristnogol ac elusennol eraill oedd eu swyddfeydd. Roedd 260 o weithwyr yr eglwys yn gweithio oddi yno a phawb i'w gweld yn cydweithio mewn ystafelloedd cyfarfod hwylus ar ddyddiau arbennig. Cawsom weld prosiectau arloesol dan nawdd yr eglwys: caffi hunangynhaliol mewn cysylltiad ag un o eglwysi mwyaf llwyddiannus y ddinas oedd un ohonyn nhw.

Yn yr anerchiad cyntaf i'r gynhadledd, fe gawsom ein hatgoffa gan Dr Kuzipa Nalwamba o Gyngor Eglwysi'r Byd yn Bose, y Swistir: 'Nid yr anfonwr cenhadol ydy'r eglwys, ond y gymuned sy'n dirnad cenhadaeth Duw. Nid ydym yn dod â Duw i fyd sydd wedi ei anghofio ganddo, ond ceisio adnabod lle mae Ysbryd Duw eisoes ar waith ynddo.'

Buom hefyd yn y brifddinas, Amsterdam, ar ddiwrnod arbennig yn eu hanes fel cenedl oedd yn dod yn fwyfwy pwysig iddyn nhw, sef diwrnod a gŵyl o'r enw Keti Koti – enw a olygai 'torri cadwynau' yn yr iaith Sranantongo a siaredir yn Suriname, de America. Roedd yr ŵyl, a gynhelir ar 1 Gorffennaf, yn dathlu'r diwrnod y dechreuwyd rhoi diwedd ar gaethwasiaeth yn Suriname a thaleithiau eraill o dan lywodraeth yr Iseldiroedd ym 1863. Ond ni welwyd terfyn ar y gaethwasiaeth hon tan ddeng mlynedd yn ddiweddarach dan gytundeb y byddai'r caethion yn dal ati i wasanaethu eu meistri fel math o iawndal iddyn nhw.

Yno, mewn parc ynghanol Amsterdam, fe gawsom ni'r fraint o gael cipolwg dan y cyfoeth a'r drefn i gyd a gweld bod yna draddodiad hir o drefedigaethu oedd wedi golygu bod y wlad wedi ymgyfoethogi ac elwa'n aruthrol ar hyd y canrifoedd ar draul hynny. Roedd trefedigaethau yn y Caribî eto'n perthyn i Deyrnas yr Iseldiroedd – ond nid oedd yn agos yr un buddsoddiad a chyfoeth a chyfleon yno.

Yn ychwanegol at y cyflwyniadau eraill a'r gwaith arbenng oedd i'w gyflawni gan y cynrychiolwyr oedd yno, fe gawsom gyfarfod yr Athro Kathleen Ferrier, Cadeirydd Comisiwn UNESCO yr Iseldiroedd a chyn-Aelod o Senedd yr Iseldiroedd sy'n parhau i gynghori CWM ar eu rhaglenni. Fe roddodd hanes a'i myfyrdodau ar daith yr Iseldiroedd wrth iddi wynebu ei gorffennol o gaethwasiaeth. Roedd wedi gweld diwedd i'r arfer o beintio wyneb yn ddu ac ymddwyn braidd yn dwp yn nhraddodiad Nadoligaidd 'Black Pete', a'i gyfnewid am beintio wynebau'n bob lliw er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y gymdeithas bellach.



*Ger y cerflun caethwasiaeth cenedlaethol*

Mae stori wynebu eu gorffennol ymerodrol wedi dechrau cael ei dweud yma, a llawer o ymddiheuro wedi digwydd eisoes gan Frenin a Phrif Weinidog y wlad. Cafwyd ymddiheuriad hefyd gan eglwysi am eu rhan hwythau, a bwriad prosiect Onesimus CWM yw helpu eglwysi'r Gorllewin i wynebu eu rhan hwythau yn y trefedigaethu.

Wrth fyfyrio ar y gorffennol hwn yn yr Iseldiroedd, fe atgoffodd Kathleen Ferrier ni nad ymddiheuro yw diwedd y daith. Doedd hi ddim yn gweld hynny fel diben ynddo'i hun, ond yn hytrach fel coma, ac nid atalnod llawn, ar y gorffennol anffodus. Gwelai lawer o ffordd i fynd eto i wneud iawn am yr hyn a fu wrth i'r eglwys hefyd symud oddi wrth gofio yn unig i weithredu'n gyfiawn, gan sicrhau cymod a chymryd rhan mewn cenhadaeth oedd yn trawsnewid y gymdeithas o'i chwmpas.

Yn y cyfamser, roedd hi'n braf gweld pobl o Suriname yn cadw gŵyl liwgar a llawen Keti-Koti yn Amsterdam. Roedden nhw'n gwneud hynny yng nghysgod y cerflun caethwasiaeth anferth yn un o'r parciau yno, gan wahodd pawb atyn nhw o bedwar ban i ddathlu'r hyn oedd yn eu nodweddu a'r hyn oedd yn eu huno heddiw fel dinasyddion y wlad.

*(Gol. HPD)*






**Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid archebu tocynnau ymlaen llaw (i'r prynhawn a'r hwyr) a hefyd ar gyfer y lluniaeth. Cysylltwch ag Emyr Wyn i sicrhau lle: 07920 012301 neu emyrwj@myfwi.co.uk**

Dathlu cyfraniad

Y Traethodydd

yn Eisteddfod y Garreg Las



Am ganrif a thri chwarter a mwy mae'r Traethodydd wedi gwasanaethu diwylliant Cymru a'i llên. Dewch i babell Prifysgol Aberystwyth am 2 o'r gloch pnawn Mawrth 4 Awst i ddathlu parhad cylchgrawn llenyddol hynaf Cymru a chlywed **Eryn White** yn sôn am hanes cyhoeddi cylchgronau yn y Gymraeg a **Dylan Iorwerth** yn trafod eu dyfodol yn yr oes ddigidol. Trafodaeth fer a derbyniad i ddilyn.

**Pabell Prifysgol Aberystwyth**
**2 o'r gloch**
**Mawrth, 4 Awst**

YTraethodydd



**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*


Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru ar 01745 817584 neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.